**Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council**

**10ed Gorffennaf 2024 / 10th July 2024**

**Festri Tabernacle Vestry, Pencader**

**Is-Bwyllgor Cyllid / Finance Sub-Committee**

**7.30 yh / pm**

**Presennol / Present:** M. Griffiths, A. Davies, D. Davies, H. Lewis, A. Evans (Clerc/Clerk)

**Ymddiheuriadau / Apologies:** R. Thomas

| | | |
|---|---|---|
| **1. Cofnodion Cyfarfod 10ed Mehefin 2024** – Derbyniwyd fel cofnodion cywir yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 17eg Mehefin, 2024.<br>Cynigiwyd: A. Davies; Eiliwyd: H. Lewis (17.06.2024) | | **1. Minutes of Meeting held 10th June 2024** – Accepted as an accurate record at Full Council Meeting held on 17th June, 2024.<br>Proposed: H. Lewis; Seconded: A. Davies (17.06.2024) |
| **2. Materion yn Codi** – Nid oedd unrhyw faterion yn codi nad oes eisoes wedi eu trafod yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 17eg Mehefin, 2024. | | **2. Matters Arising** – There were no matters arising which had not been discussed at the meeting of the full Council on 17th June, 2024. |
| **3. Derbyn a thrafod y Fantolen / Adroddiad Ariannol hyd at 30.06.2024** – Cyflwynwyd y Fantolen Ariannol Chwarterol gan H.Lewis. Trafodwyd a derbyniwyd yr adroddiad a nodwyd gwerthfawrogiad y Pwyllgor i'r Cyng. Lewis am y gwaith manwl a thrylwyr. | | **3. Receive and discuss Financial Statement / Report up to 30.06.2024** - The Financial Statement was presented by H. Lewis. It was discussed and accepted, with the Committee noting its appreciation to Cllr. Lewis for preparing a detailed and thorough report. |
| **4. Cofrestr Asedau** – bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 15.07.2024. | | **4. Asset Register** – an updated version will be presented at the Full Council Meeting on 15.07.2024. |
| **5. Adroddiad Archwiliad Llawn 2022-2023** – Nodwyd bod yr "Hysbysiad am Gwblhau'r Archwiliad ac am yr Hawl i Arolygu'r Cofnod Blynyddol am y Flwyddyn yn Gorffen 31.03.2023" wedi ei osod ar safle we ac hybysfyrddau'r Cyngor. Nodwyd hefyd bod angen i'r Adroddiad gael ei osod yn yr un modd. | | **5. Full Audit Report 2022-2023** – it was noted that the "Notice of Conclusion of Audit and Right to Inspect the Annual Return for the Year Ended 31.03.2023" has been displayed on the Council's noticeboards and published on its website. It was also noted that the Audit Report should now be displayed and published likewise. |
| **6. Archwiliad Sylfaenol 2023-2024** – Cadarnhawyd bod y ddogfennaeth angenrheidiol wedi ei anfon (drwy e-bost) i Archwilio Cymru ar y 03.07.2024. Cadarnhawyd hefyd bod yr Hysbysiad Archwilio wedi ei osod ar hysbysfyrddau a safle we'r Cyngor yn unol â gofynion Archwilio Cymru erbyn yr 16.06.2024. | | **6. Basic Audit 2023-2024** – It was confirmed that the required documentation had been submitted to Audit Wales (via e-mail) on the 03.07.2024. It was also confirmed that the Audit Notice had been displayed on the Council's noticeboards and website by 16.06.2024 in accordance with Audit Wales requirements. |
| **7. Amserlen Camau Gweithredu Ariannol** – Nodwyd bod y ddogfen hon wedi bod yn ddefnyddiol iawn i gynorthwyo gyda'r paratoadau ar gyfer anfon y wybodaeth angenrheidiol at Archwilio Cymru. | | **7. Annual Financial Timetable of Actions** – It was noted that this document had proved of invaluable assistance in the preparation of all information required for submission to Audit Wales. |
| **8. Dogfennaeth Ariannol i'w gosod ar y we** – Nodwyd bod angen gosod yr Adroddiad Archwilio | | **8. Financial Documents to be placed on the website** – It was noted that the Audit Report 2022- |

| | | |
|---|---|---|
| 2022-2023 ar safle we'r Cyngor. Hefyd, nodwyd yr angen i wirio bod unrhyw ddogfennaeth ariannol a oedd yn angenrheidiol i'w osod ar y we yn cael ei osod. | | 2023 should now be placed on the Council's website. The need to ensure that all financial documentation required to be placed on the Council's website was noted. |
| **9. Trefniadau Bancio** – Adroddwyd bod trefniadau yn weithredol ers rhai wythnosau erbyn hyn. Mae tri o lofnodwyr y cyfrif wedi llwyddo i gael mynediad ar-lein. Mae angen sicrhau bod un llofnodydd arall hefyd yn gallu gwneud. Gwneir trefniadau ar gyfer hyn dros yr wythnosau nesaf. | | **9. Banking Arrangements** – It was reported that arrangements had now been finalised and online banking was now operational. Three of the four signatories have succeeded in gaining online access. Arrangements will now be made to ensure the remaining signatory also has access. |
| **10. Unrhyw Fusnes Arall** – Nododd y Cadeirydd yr angen i gwblhau'r Ffurflen Taliadau i Aelodau 2023-2024 a'i gosod ar safle we'r Cyngor. Darparwyd gwybodaeth ganddo hefyd ynglyn â'r gofynion ar gyfer hyn am y flwyddyn 2024-2025. | | **10. Any Other Business** – The Chairman noted the requirement to complete the Statement of Payments to Members 2023-2024 and ensure the document was placed on the Council's website. Information was also provided re: requirements for 2024-2025. |
| **11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf** - Dyddiad i'w gytuno ar gyfer Mis Hydref 2024 cyn dyddiad cyfarfod llawn y Cyngor. | | **11. Date of Next Meeting** - Date to be agreed for meeting to be held during October2024 on a date prior to the meeting of the full Council. |

**Gorffenwyd / Ended**: 8.20 y.h. / p.m.

____________________________________